OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 1172

## Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Darpariaethau Arbed a Darpariaethau Trosiannol) 2022

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Darpariaethau Arbed a Darpariaethau Trosiannol) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Rhagfyr 2022.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "contract cyfyngedig" yr un ystyr ag a roddir i "restricted contract" yn Neddf 1977;

mae i "contract diogel wedi ei drosi" ("*converted secure contract*") yr un ystyr ag a roddir iddo yn Neddf 2016 (gweler paragraff 1(1) o Atodlen 12 i Ddeddf 2016);

mae i "contract meddiannaeth" ("*occupation contract*") yr un ystyr ag a roddir iddo yn Neddf 2016 (gweler adran 7 o Ddeddf 2016);

ystyr "Deddf 1977" ("*1977 Act*") yw Deddf Rhenti 1977(**1**);

ystyr "Deddf 1985" ("*1985 Act*") yw Deddf Tai 1985(**2**);

ystyr "Deddf 1986" ("*1986 Act*") yw Deddf Ansolfedd 1986(**3**);

ystyr "Deddf 1988" ("*1988 Act*") yw Deddf Tai 1988(**4**);

ystyr "Deddf 1989" ("*1989 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**5**);

ystyr "Deddf 1996" ("*1996 Act*") yw Deddf Tai 1996(**6**);

ystyr "Deddf 2004" ("*2004 Act*") yw Deddf Tai 2004(**7**);

ystyr "Deddf 2014" ("*2014 Act*") yw Deddf Tai (Cymru) 2014(**8**);

ystyr "Deddf 2016" ("*2016 Act*") yw Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016;

ystyr "diwrnod penodedig" ("*appointed day*") yw'r diwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 257 o Ddeddf 2016 fel y diwrnod y daw adran 239 o'r Ddeddf honno i rym;

ystyr "Gorchymyn 1988" ("*1988 Order*") yw Gorchymyn Tenantiaethau Sicr a Meddianaethau Amaethyddol Sicr (Gwybodaeth am Rent) 1988(**9**);

ystyr "Gorchymyn 1997" ("*1997 Order*") yw Gorchymyn Swyddogion Rhenti (Swyddogaethau Budd-dal Tai) 1997(**10**);

---

(**1**) 1977 p. 42.
(**2**) 1985 p. 68.
(**3**) 1986 p. 45.
(**4**) 1988 p. 50.
(**5**) 1989 p. 42.
(**6**) 1996 p. 52.
(**7**) 2004 p. 34.
(**8**) 2014 dccc 7.
(**9**) O.S. 1988/2199.
(**10**) O.S. 1997/1984.

ystyr "Gorchymyn 2013" ("*2013 Order*") yw Gorchymyn Swyddogion Rhenti (Swyddogaethau Credyd Cynhwysol) 2013(**11**);

ystyr "Rheoliadau 1985" ("*1985 Regulations*") yw Rheoliadau Tenantiaethau Diogel (Cynllun Hawl i Atgyweirio) 1985(**12**);

ystyr "Rheoliadau 1994" ("*1994 Regulations*") yw Rheoliadau Tenantiaid Diogel Awdurdodau Lleol (Digolledu am Welliannau) 1994(**13**);

ystyr "Rheoliadau Canlyniadol 2022" ("*2022 Consequential Regulations*") yw Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022(**14**);

ystyr "Rheoliadau Canlyniadol Is-ddeddfwriaeth 2022" ("*2022 Secondary Consequential Regulations*") yw Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2022(**15**);

mae i "tenantiaeth fyrddaliol warchodedig" yr un ystyr ag a roddir i "protected shorthold tenancy" yn Neddf 1977.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 1 mewn grym ar 1.12.2022, gweler **rhl. 1(2)**

(**11**) O.S. 2013/382.
(**12**) O.S. 1985/1493.
(**13**) O.S. 1994/613.
(**14**) O.S. 2022/1166 (Cy. 241).
(**15**) O.S. 2022/907 (Cy. 198).

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Darpariaethau Arbed a Darpariaethau Trosiannol) 2022, Adran 1.